**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

Annwyl Gadeiryddion,

**Blaenoriaethau ar gyfer Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chwaraeon**

Yn ddiweddar cyhoeddais Adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg sy'n darparu dadansoddiad manwl o ganlyniadau Cyfrifiad 2021 mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r adroddiad yn mynd tu hwnt i ffigurau'r cyfrifiad drwy graffu mewn manylder ar feysydd polisi sy'n ganolog i greu mwy o siaradwyr Cymraeg ac i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys meysydd fel trosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd, addysg a sgiliau, y gweithle, a chynllunio ieithyddol cymunedol. Mae'r adroddiad yn pwyso a mesur yr holl dystiolaeth uchod ac yn gosod argymhellion clir a phenodol ynghylch yr hyn sydd angen ei flaenoriaethu er mwyn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg dros y cyfnod nesaf. Byddem yn eich annog i ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn wrth i chi gynllunio eich gwaith yn ystod y Seithfed Senedd.

Er bod yr adroddiad yn amlinellu nifer o heriau sy'n wynebu'r Gymraeg, mae hefyd yn pwysleisio bod datblygiadau arwyddocaol ar droed a allasai gryfhau'n sylweddol sefyllfa'r Gymraeg dros y cyfnod nesaf. Efallai mai'r ddau ddatblygiad pwysicaf yw pasio Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Mae gan y datblygiadau hyn y potensial i drawsnewid sefyllfa'r Gymraeg yn y dyfodol, ac mae gan y Pwyllgor rôl ganolog yn craffu ac yn sicrhau bod y Llywodraeth yn gweithredu yn effeithiol ac yn gwneud y mwyaf o'r cyfle sy'n bodoli yn ystod y Senedd hon.

Fel sy'n cael ei amlygu yn ein hadroddiad, nid maes polisi ymylol sy'n sefyll ar ei ben ei hun yw'r Gymraeg; eithr fe ddylai'r Gymraeg gael ei hystyried yn elfen ganolog o ddatblygiad deddfwriaeth a pholisi cyhoeddus Cymru. Byddem yn eich annog felly i sicrhau bod y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg ym mhob agwedd o'i waith, nid dim ond pan fydd yn ystyried materion penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae nifer o'r meysydd blaenoriaeth sy'n cael eu hamlinellu yn ein hadroddiad yn berthnasol i bwyllgorau eraill y Senedd, yn ogystal â'ch pwyllgor chi sy'n gyfrifol am graffu ar y

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Ffordd Balaclafa
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Balaclafa Way
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Gymraeg yn benodol. Byddem felly yn eich annog i ystyried cyfleoedd i gydweithio â chyd-gynllunio eich gwaith gyda phwyllgorau eraill perthnasol y Senedd.

Ar sail prif gasgliadau'r adroddiad rwyf yn argymell fod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth ganlynol:

## 1. Strategaeth Cymraeg 2050 y Llywodraeth

Mae strategaeth Cymraeg 2050 y Llywodraeth yn gosod y weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r ganran sy'n defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol erbyn 2050. Mae gan y Pwyllgor rôl allweddol yn craffu ar y graddau mae'r Strategaeth yn cael ei chyflawni a bod y cerrig milltir sydd wedi'u gosod yn cael eu cyrraedd.

Fel y gwyddoch, bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar fersiwn diwygiedig o'r strategaeth hwn yn ystod yr hydref, a hynny fel rhan o weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025. Credwn fod gan y Pwyllgor rôl bwysig yn craffu ar y gwaith o ddiwygio'r strategaeth hon, a maes o law yn dwyn y Llywodraeth i gyfrif am ei gweithredu. Mae nifer o'r materion y byddaf yn cyfeirio atynt isod yn rhan, wrth gwrs, o weithrediad Strategaeth Cymraeg 2050.

## 2. Ehangu safonau'r Gymraeg

Mae ein hadroddiad 5 mlynedd yn nodi mai safonau'r Gymraeg yw'r mecanwaith mwyaf effeithiol ar gyfer gwella darpariaeth a sicrhau cysondeb mewn gwasanaethau Cymraeg. Er mwyn cynyddu'r cyfleoedd hyn ymhellach, mae ymestyn y safonau i sefydliadau a sectorau newydd yn gam allweddol. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth newydd wedi ymrwymo i gryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg drwy ymestyn safonau'r Gymraeg.

Dylai'r Pwyllgor graffu ar y gwaith hwn o ymestyn safonau'r Gymraeg, gan gynnwys:

- Y gwaith o ddatblygu amserlen benodol ar gyfer dod â mwy o sefydliadau a sectorau o dan gyfundrefn safonau'r Gymraeg, gan gynnwys pa sefydliadau a sectorau y dylid eu blaenoriaethu
- Yr angen i adolygu safonau'r Gymraeg i sicrhau eu bod dal yn berthnasol ac yn adlewyrchu modelau darparu gwasanaethau'r presennol a'r dyfodol
- Y broses o weithredu Adran 4 Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a'r ddyletswydd sydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r safonau sy'n ymwneud â gwella neu asesu sgiliau'r gweithlu o ran y Gymraeg, a'r safonau hybu

## 3. Creu siaradwyr Cymraeg hyderus drwy'r gyfundrefn addysg

Yn ein hymateb i ymgynghoriad Pwyllgor y Blynyddoedd Cynnar, Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar eu blaenoriaethau ar gyfer y Seithfed Senedd rydym wedi argymell fod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar bum maes blaenoriaeth mewn perthynas â'r Gymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Credwn y dylai'r rhain fod yn flaenoriaethau i'r pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a chwaraeon yn ogystal, ac maent yn cynnwys:

- **Ehangu gofal plant a darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg** gyda ffocws penodol ar ymrwymiad y Llywodraeth i gynnig gofal plant am ddim i bob plentyn rhwng 9 mis a 4 blwydd oed ac fel rhan o hynny ehangu gofal plant cyfrwng Cymraeg.
- **Gweithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025** gan gynnwys ffocws yn y tymor byr ar y gwaith o ddatblygu'r cod ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg a'r broses o lunio a chyhoeddi Fframwaith Cenedlaethol ar addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg.
- **Datblygu gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog**, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, addysg statudol, a'r gweithlu addysg drydyddol.
- **Craffu ar y rhwystrau sy'n llesteirio twf addysg cyfrwng Cymraeg**, gan gynnwys argaeledd cymwysterau, cludiant i addysg, anghenion dysgu ychwanegol a gweithredu'r cwricwlwm i Gymru.
- **Cryfhau dilyniant i addysg drydyddol, sgiliau a chyflogaeth**, gyda ffocws penodol ar rôl Medr yn llunio cynllun cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg yn y sector drydyddol, sut mae'r sector drydyddol yn creu gweithlu dwyieithog y dyfodol, a phwysigrwydd ehangu cymwysterau galwedigaethol a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg.

## 4. Cefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith

Er bod y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg wedi aros yn gymharol sefydlog dros y degawdau diwethaf, mae'r Cyfrifiad diweddaraf yn dangos dirywiad pellach yn sefyllfa'r Gymraeg mewn rhai ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr. Does dim dwywaith fod sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw, sy'n cael ei defnyddio'n eang, ac sy'n cael ei throsglwyddo o un genhedlaeth i'r llall dan bwysau cynyddol.

Mae hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol yn dibynnu ar fwy na darpariaeth addysg neu fodolaeth gwasanaethau Cymraeg. Mae'n dibynnu ar dai, yr economi leol, cyfleoedd gwaith, gweithgareddau cymunedol, a strwythurau lleol sy'n gallu cynnal defnydd cymunedol o'r iaith.

Dylai'r pwyllgor graffu ar:

- Sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb ac yn gweithredu ar sail argymhellion adroddiad cam 1 y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, ac fel rhan o hynny yn gweithredu prif argymhelliad y Comisiwn i sefydlu ardaloedd o arwyddocâd dwysedd uwch
- Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, sut mae polisïau tai, cynllunio, datblygu economaidd, twristiaeth, diwylliant a chwaraeon yn cael eu datblygu a'u gweithredu er mwyn cefnogi'r Gymraeg o fewn cymunedau.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

- Sut mae ymrwymiad y Llywodraeth i sefydlu Asiantaeth Datblygu Cenedlaethol yn cefnogi economi ardaloedd o arwyddocâd dwysedd uwch ac yn cynyddu amlygrwydd y Gymraeg mewn busnesau o bob math, ac felly yn cryfhau cymunedau Cymraeg eu hiaith.

**5. Cynyddu defnydd y Gymraeg a chynllunio ieithyddol cymunedol**

Mae'r dystiolaeth yn dangos mai un o'r prif heriau i'r Gymraeg yw diffyg defnydd o'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol y tu allan a thu hwnt i'r gyfundrefn addysg.

Dylai'r Pwyllgor graffu ar ymdrechion Llywodraeth Cymru a'i bartneriaid wrth greu cyfleoedd diwylliannol a chymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai'r pwyllgor graffu ar:

- Sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb ac yn gweithredu ar sail argymhellion adroddiad cam 2 y Comisiwn Cymunedau Cymraeg
- Sut mae partneriaid fel y Comisiynydd, yr Urdd, y mentrau iaith, yr Eisteddfod Genedlaethol, clybiau chwaraeon, a sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yn gweithredu er mwyn creu gofodau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, a pa adnoddau a chyllid fydd angen arnynt er mwyn gwneud y gwaith hwn yn effeithiol
- Sut mae awdurdodau lleol yn gweithredu er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn lleol, boed hynny drwy gynllunio ieithyddol cymunedol uniongyrchol, neu drwy bolisïau a strategaethau ehangach
- Potensial y safonau hybu a'r strategaethau hybu awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol fel fframwaith ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol
- Sut gall y Strategaeth Diwylliant a Chwaraeon newydd i Gymru gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chyfrannu at gryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

**6. Rôl chwaraeon fel maes strategol ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg**

Does dim amheuaeth o bwysigrwydd y maes chwaraeon yn cynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn fwy nag unrhyw weithgaredd arall y tu allan i'r ysgol.

Dylai'r Pwyllgor graffu ar:

- Sut mae Chwaraeon Cymru, cyrff llywodraethu chwaraeon a chlybiau lleol yn gosod disgwyliadau clir ynghylch y Gymraeg wrth ddyrannu grantiau a chynllunio rhaglenni
- Darpariaeth  hyfforddiant, cymwysterau hyfforddi a datblygiad gwirfoddolwyr dryw gyfrwng y Gymraeg
- Sut mae partneriaid cenedlaethol a lleol yn cefnogi clybiau i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ac mewn ffordd hwyliog

- Sut mae chwaraeon yn cael ei ddefnyddio fel elfen ganolog o brosesau cynllunio ieithyddol cymunedol, gan gryfhau cysylltiadau rhwng ysgolion, cymunedau a theuluoedd
- Sut mae'r buddsoddiad mewn chwaraeon a diwylliant fel rhan o agenda iechyd atalion y Llywodraeth yn gallu cefnogi defnyddio'r Gymraeg

## 7. Defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau digidol

Gwyddom fod y cyfryngau digidol yn gynyddol ganolog ac amlwg ym mywydau plant a phobl ifanc heddiw. Mae ein hadroddiad 5 mlynedd yn cyfeirio at y dystiolaeth sy'n dangos bod defnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau torfol ac mewn technoleg ddigidol yn gyfyngedig. Er hynny, mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod datblygiadau ym maes technoleg, cyfryngau digidol a deallusrwydd artiffisial yn cynnig cyfleoedd cyffrous i gynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Dylai'r Pwyllgor graffu ar:

- Beth fydd effaith adolygiad siarter y BBC ar ddarlledu cyfrwng Cymraeg ei hiaith
- Sut gall yr ymrwymiad i sefydlu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru a'r bwriad i lunio Strategaeth Ddiwylliant Newydd i Gymru gefnogi defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau digidol
- Strategaeth a buddsoddiad y Llywodraeth ar gyfer sicrhau gwelededd a defnydd y Gymraeg ar gyfryngau digidol, gan gynnwys ymateb y Llywodraeth i argymhelliad 16 adroddiad ail gam y Comisiwn Cymunedau Cymraeg
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ac yn cefnogi S4C, y BBC, Ofcom, Cymru Greadigol, cwmnïau technoleg a sefydliadau creadigol i gynyddu cynnwys Cymraeg ar y cyfryngau digidol
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i newid arferion ac ymddygiad defnyddwyr, yn enwedig plant a phobl ifanc, a pha gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn sicrhau bod defnyddio'r Gymraeg ar-lein yn ddewis hawdd a naturiol

## 8. Creu gweithleoedd sy'n cefnogi'r Gymraeg

Y tu hwnt i'r system addysg, y gweithle yw un o'r gofodau sydd â'r potensial mwyaf i ddylanwadu ar gyfleoedd i unigolion ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Mae cyfle gwirioneddol i adeiladu ar yr hyn mae'r system addysg yn ei gyflawni drwy sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol wrth weithio. Drwy gynyddu defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg yn y gweithle mae potensial i ddylanwadu ar ganfyddiadau pobl o bwysigrwydd yr iaith, i feithrin hyder ieithyddol, ac i sbarduno defnydd ehangach o'r Gymraeg yn y gymuned.

Dylai'r Pwyllgor graffu ar:


- Sut mae Llywodraeth Cymru yn arwain strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd ledled Cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

- Sut mae partneriaid allweddol, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, Medr a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cydweithio'n strategol er mwyn creu gweithluoedd dwyieithog a chynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd.
- Sut mae cynllunio a datblygu gweithlu ddwyieithog o fewn sectorau allweddol, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, yn cael ei flaenoriaethu'n effeithiol
- Sut mae'r gwaith o lunio cod ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio at bwrpas symud gweithleoedd ar hyd continwwm ieithyddol, gan gynnwys y gwaith o adolygu safonau'r Gymraeg sy'n ymwneud a meithrin sgiliau a defnydd y Gymraeg o fewn gweithleoedd.

Gobeithiaf fod y sylwadau uchod o gymorth wrth i'r Pwyllgor lunio ei raglen waith ar gyfer y Seithfed Senedd. Edrychaf ymlaen at ymddangos gerbron y Pwyllgor maes o law i drafod y materion uchod ymhellach.

Yn gywir



**Efa Gruffudd Jones**

Comisiynydd y Gymraeg